Cyfanswm yr Awdurdod	9,543	9,305	8,939


ii) Cyfeiriadedd Rhywiol

Cyfeiriadedd Rhywiol (Cyfansymiau Corfforaethol)	31/03/14	31/03/15	31/03/16
Deurywiol	5	8	8
Hoyw	10	19	26
Heterorywiol	961	1,523	1,829
Lesbiaidd	8	10	14
Arall	2	12	19
Heb Ddatgan	8,411	7,587	6,909
Anfodlon Datgan	142	146	134
Cyfanswm yr Awdurdod	9,539	9,305	8,939

7. Canllawiau Staff

Creu Dogfennau Canllaw CBSC newydd yn unol â deddfwriaeth

a) Canllaw Caffael a Chomisiynu 2016




Cynhyrchwyd y ddogfen ganllaw hon i roi gwybodaeth gychwynnol ac arweiniad i staff ar ble mae'n rhaid i faterion Cydraddoldeb a'r Gymraeg gael eu hystyried wrth baratoi cytundebau Cyngor neu'n comisiynu dogfennau i drydydd parti, er mwyn iddynt dendro a darparu nwyddau neu wasanaethau ar ein rhan.

Mae'n esbonio sut y gall y Cyngor yn gorfforaethol, neu ar lefel maes gwasanaeth, gydymffurfio â gofynion y Safonau Iaith Gymraeg a Chydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ar wahanol gamau o'r broses gaffael a chomisiynu.

Mae'r ddogfen gyfarwyddyd yn amlinellu'r cefndir a'r ddeddfwriaeth, yn enwedig y Safonau Iaith Gymraeg newydd sydd gyda 6 safon (Safonau 75, 76, 77, 77A, 79 a 80), sy'n ymwneud yn benodol â phroses dendro corff sy'n dyfarnu contractau. Mae hefyd yn cynnwys tabl o enghreifftiau ymarferol o le mae rhai neu bob agwedd o ddyletswyddau Cydraddoldeb neu'r Iaith Gymraeg yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Bwriad y tabl yw rhoi canllaw i aelodau o staff i ddangos lle y mae'r cysylltiadau yn cael eu gwneud, os o gwbl, rhwng y ddeddfwriaeth a gwmpesir gan y canllawiau hyn a gwaith gan drydydd parti sydd ar hyn o bryd yn cael ei wneud ar ran y Cyngor.

Mae'r canllaw wedi'i ddiweddarau ac ar gael ar wefan y Cyngor drwy www.caerffili.gov.uk/cydraddoldeb ac ar y Porthol ar y fewnwyd ar gyfer aelodau staff y Cyngor ac aelodau etholedig.

b) Canllaw Cwynion Cydraddoldeb a'r Gymraeg 2016



Mae Canllaw Cwynion Cydraddoldeb a'r Gymraeg 2016 wedi cael ei gynhyrchu i ddarparu cefnogaeth ychwanegol ar gyfer aelodau staff sydd, wrth ymdrin â chwyn, wedi darganfod ei fod yn cynnwys honiadau o wahaniaethu, neu o bosibl yn dod ag agweddau ehangach o ddeddfwriaeth Cydraddoldeb a'r Gymraeg i'r broses o ddatrys y cwyn.

Mae'r canllaw yn cael ei ddefnyddio ar y cyd â chanllawiau Cwynion Corfforaethol CBS Caerffili, Canllawiau Cwynion y Gwasanaethau Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r holl ganllawiau Adnoddau Dynol o gwmpas côd ymddygiad y staff.

Yn gynwysedig yn y canllaw mae'r ddeddfwriaeth Cydraddoldeb a'r Gymraeg, sef Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011- Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.


Mae'r canllaw yn cwmpasu arferion CBS Caerffili mewn perthynas ag ymdrin â chwynion sy'n honni gwahaniaethu, cwynion yn ymwneud â darpariaeth gwasanaethau Cymraeg a chwynion a gyflwynir yn y Gymraeg. Mae'r canllaw hefyd yn cynnwys y broses gwynion, ynghyd â pharagraffau awgrymiadol safonol a geiriad y gellir eu defnyddio wrth ymateb i Gwynion Cam 1 neu Gam 2, ond hefyd sut i ddelio ag achwynydd sy'n parhau i fod yn anfodlon.

Mae'r ddogfen canllaw hon ar gael ar wefan y Cyngor drwy www.caerffili.gov.uk/cydraddoldeb ac ar y Porthol ar y fewnwyd ar gyfer aelodau staff y Cyngor ac aelodau etholedig.

8. Hunanwerthuso Meysydd Gwasanaeth

Diweddariad ar newidiadau yn y modd y mae meysydd gwasanaeth y Cyngor yn edrych ar eu perfformiad eu hunain o ran Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Ers 2014, mae'r prosesau Cynllunio Gwasanaeth yn y Cyngor wedi cael eu hadolygu'n barhaus i wella ei ffocws, ei bwylais a phwysigrwydd asesu lefelau darpariaeth gwasanaethau yn gyfnodol, amseroedd ymateb ac ansawdd y gwasanaeth (Hunanwerthuso Gwasanaeth), i gynnwys amrywiaeth o ddata a chudd-wybodaeth i werthuso gwaith maes gwasanaeth ac i ddod i gasgliad ynghylch pa mor effeithiol yw'r gwasanaeth hwnnw. Er enghraifft, mae ein model Hunan-Werthuso presennol yn cynnwys, o leiaf, y categorïau canlynol:



Mae rhan 1 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, yn cynghori y dylai pob awdurdod 'asesu' ei hunain ac wedyn cyhoeddi i'r cyhoedd sut mae wedi perfformio, gyda dyletswyddau cyffredinol i:

- Wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus, gan ystyried; effeithiolrwydd strategol, ansawdd gwasanaethau, argaeledd gwasanaethau, tegwch, cynaliadwyedd, effeithlonrwydd ac arloesi.

Er bod y ddeddfwriaeth a'r canllaw cyfredol yn glir yn yr hyn y dylid ei ystyried, nid yw'n cael ei gyfyngu neu'n rhagnodol ynghylch sut y dylai'r Cyngor gynnal ei broses Hunanwerthuso.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi datgan;

"Ei fod yn dymuno gweld gwasanaethau cyhoeddus yn datblygu eu galluoedd eu hunain i werthuso eu gwasanaethau yn adeiladol, gan osod llai o ddibyniaeth ar y cyrff rheoleiddio".

Gall hyn ond fod yn llwyddiannus o fewn amgylchedd lle mae Hunan-Werthuso yn amserol, yn onest, yn ddibynadwy, yn ffeithiol, yn gyson, yn cael ei rannu ac ar gael i'w herio.

Dylai hunanwerthusiad y Gwasanaeth fod mor wrthrychol â phosibl, gyda rhywfaint o ddadansoddi goddrychol i gefnogi a phenderfynu ar y gudd-wybodaeth a gwybodaeth a gafwyd o'r ymarfer, gan alluogi'r holl ganfyddiad gael eu rhoi mewn cyd-destun ystyrlon.

Dylai hunanwerthuso fod yn seiliedig ar dystiolaeth a ddylai fod ar gael yn rhwydd os ceir heriau.

Mae dyfyniad o ymatebion Hunan-Werthuso a dderbyniwyd gan feysydd gwasanaeth ynghylch Aseiad Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn cael eu dangos yn **Atodiad D** yr adroddiad hwn.

9. Data Cwynion

Dadansoddiad o'r cwynion a dderbyniwyd yn ystod 2015-2016 a throsolwg o systemau o adrodd a chofnodi gwell

Mae Adran 4 o'r **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012** yn diffinio'r hyn a ystyrir yn gŵyn yn nhermau materion Cydraddoldeb a'r Gymraeg.

Mae hyn er mwyn cynnal cysondeb ymagwedd wrth ymdrin ag unrhyw gŵyn o'r natur hon gan fod y Cyngor yn gweithredu gwasanaeth Cydraddoldeb a'r Gymraeg integredig.

v) Cwynion

- 4.9 Gall cwyn gael ei ddiffinio fel sefyllfa lle nad yw aelod o'r cyhoedd, neu grŵp, yn fodlon â safon y gwasanaeth, neu'r camau neu ddiffyg gweithredu gan y Cyngor neu aelod o staff.
- 4.10 Byddwn yn ymdrin â phob cwyn yn unol â pholisi Cwynion corfforaethol, ond gyda'r angen ychwanegol i gyfieithu'r holl ohebiaeth sy'n dod i mewn ac yn mynd allan ar y mater, yn unol â **Chanllawiau Cyfieithu Cymraeg 2016** ac unrhyw fater cyfieithu, dylunio neu fformat.
- 4.11 Bydd cwynion yn cael eu monitro'n llawn fesul categori Cydraddoldeb ac ym mha iaith neu fformat cawsant eu gwneud yn y lle cyntaf.
- 4.12 Gellir cwyno yn ysgrifenedig, dros y ffôn neu drwy e-bost i gyfeiriad e-bost penodol y Cyngor cwynion@caerffili.gov.uk.
- 4.13 Mae canllaw pellach i'w cael yn y ddogfen **Canllaw Cwynion Cydraddoldeb a'r Gymraeg 2016**.

Mae data cwynion am Gydraddoldeb a'r Gymraeg yn ffurfio rhan o'r adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Archwilio fel rhan o'r broses Cwynion Corfforaethol lle bo hynny'n briodol, ac mae'r Uwch Swyddog Polisi (Cydraddoldeb a'r Gymraeg) hefyd nawr yn rhan o'r Grŵp Dysgu o Gwynion Corfforaethol sy'n cwrdd yn chwarterol i drafod cwynion penodol a thrawsbynciol.

Cwynion corfforaethol yw'r rhai sy'n ganlyniad i fethiant o broses neu fethiant i weithredu polisi'r Cyngor yn gywir. Mae'r rhain yn gwynion a allai yn y pen draw gael eu danfon at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus neu Gomisiynydd y Gymraeg er enghraifft. Mae materion côd ymddygiad o ran ymddygiad staff neu agwedd yn cael eu trin drwy brosesau Adnoddau Dynol mewnol.

Mae cwynion Cydraddoldeb a'r Gymraeg fodd bynnag yn dipyn o gymysgryw, yn y ffaith y gall methiant y broses fod o ganlyniad i agweddau neu farn aelod staff tuag at grŵp penodol er enghraifft.

Yn ystod 2015-2016, cofnodwyd **43** o achosion gyda 35 o'r rhain yn cael eu dosbarthu yn gorfforaethol fel ceisiadau am wasanaeth. Fodd bynnag, categoriwyd **8** o'r rheini fel cwynion - **1** gwyn Iaith Gymraeg a **7** yn gwynion Cydraddoldeb.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o'r ceisiadau a'r cwynion a dderbyniwyd gan y gwasanaeth, er bod y manylion llawn wedi cael eu dileu ar gyfer yr adroddiad hwn er mwyn cynnal anhysbysrwydd y rhai sy'n gwneud y gwyn.

**Tabl 9.1 - Cwynion fesul pwnc Cydraddoldeb
(yn dilyn y categorïau a restrir yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili)**

PWNC	NIFER O GWYNIION	NIFER O GEISIADAU GWASANAETH
Cyffredinol / Amhenodol	0	0
Ailbennu Rhywedd/ Trawsrywedd	0	1
Beichiogrwydd a Mamolaeth	0	0
Cenedligrwydd	0	0
Crefydd neu Gred	0	1
Cyfeiriadedd Rhywiol	0	0
Hawliau Dynol	0	0
Hil	1	1
Oedran	0	0
Rhyw (Rhywedd)	0	0
Sgiliau Ieithyddol	1	0
Sipsiwn a Theithwyr	0	0
Statws Priodasol	0	0
Y Gymraeg	1	25
Cyfanswm	8	35

ATODIAD A

ERTHYGL FYNE TIMES AR WAITH BWLIO GWAHANIAETHOL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

A greener place
Man gwyrddach



Tackling Homophobic Bullying in Schools

As we reported last year, since 2012, Caerphilly county borough council has worked with schools to develop better monitoring and better support for pupils and teachers in dealing with homophobic bullying. The most recent report on this work around all forms of discriminatory bullying was published in January 2015 and can be found online at www.caerphilly.gov.uk/equalities.



Update reports on discriminatory bullying are also presented to elected members through the Education for Life Scrutiny Committee, and to the Community Cohesion Forum as part of the reporting on all hate crime and incidents in the county borough.

Developing discriminatory bullying monitoring to cover 10 areas of pupil identity including

homophobic bullying has meant that the Council now has recorded data on homophobic incidents in schools.

Since the trial term in 2012, there are now three full academic years' worth of data to be able to identify patterns, trends and target support at any schools where there seems to be ongoing problems. From the current academic year onwards,

the categories will be expanded to include biphobic bullying.

There are 97 education establishments that provide monitoring data to the Directorate of Education and the summary of the reported homophobic data across the 10 school terms is shown in the following table; the latest academic year is highlighted.

Summer Term 2012 (pilot term)	Autumn Term 2012	Spring Term 2013	Summer Term 2013	Autumn Term 2013	Spring Term 2014	Summer Term 2014	Autumn Term 2014	Spring Term 2015	Summer Term 2015
7	2	1	2	3	5	1	7	12	8

Since the report in 2013, the Council began providing training sessions in schools using the "Homophobia: Let's Tackle It" educational resource, delivered by Show Racism the Red Card. The last academic year's data shows a rise in the number of reported incidents to

27 across the 3 terms, the highest number recorded so far in one school year.

It would be heartening to believe that the increase in numbers is due to better recording and better awareness in schools and that this jump in reports has come about due to the training

the partners provided the year before, rather than there being more incidents occurring.

There is always more work to do of course, but the Council is pleased that our ongoing efforts to tackle homophobic bullying and raise awareness of the issues continues to show progress.

Staff learning Welsh ready for Eisteddfod

STAFF at Llancaiach Fawr have been learning Welsh, in preparation for the Caerphilly and District Urdd National Eisteddfod which will be held at the site later this year.

The majority of staff at the historical site are non-Welsh speakers but in September some of the staff started a Welsh evening course at the Welsh for Adults Gwent Centre, inspired to learn by the Eisteddfod visit.

Diane Walker, manager at Llancaiach Fawr, said: "There are three of us from Llancaiach Fawr that started on our six-year journey to become fluent Welsh speakers in September - even though I was brought up in England, my mother is a Welsh speaker from Abergele and I always wanted to learn the language. Twenty more of the staff will be starting a taster course at the end of February so that they will know basic Welsh to welcome the Urdd visitors to our historical site."

By Rob Owen

01633 777242

robert.owen@gwent-wales.co.uk

Twitter @ArgusROwen

Built in the early sixteenth century, Llancaiach Fawr was named as one of the top ten most haunted buildings in Britain in a recent poll.

Ms Walker added: "We very much look forward to welcoming the Eisteddfod to Llancaiach Fawr at the end of May and to seeing our grounds transformed. The manor house will be a part of the Maes and to enable us to be fully prepared I've been discussing with staff at Llanerchaeron, the 18th century estate that housed the Eisteddfod in 2010, how it will work practically."

Anwen Rees, Caerphilly council's equalities training and promotion officer, said: "We have offered an additional

entry level course this September following a rise in demand for Welsh lessons in the area.

"It's great that the staff at Llancaiach Fawr are eager to learn Welsh and I'm also aware that members of Blackwood Miners' Institute are keen to learn Welsh ready for the Eisteddfod.

"The Eisteddfod visit is a great opportunity for us to promote and encourage local people to learn Welsh and the will and enthusiasm to learn is evident. We will start the taster course with Llancaiach Fawr staff in February, teaching them simple sentences but also the history of the Welsh language. Our hope is that the staff on the entry level 1 course this year will move on to entry level 2 in September."

If you would like details of Welsh lessons in the Caerphilly area, visit www.welshforadults.org. For details of the Urdd eisteddfod, visit urdd.cymru/eisteddfod.

ATODIAD C – Crynodeb o Ddata Cyflogres CBSC

Mae'r wybodaeth ganlynol yn ddata lefel uchel o'r hyn y mae'r system *iTrent* yn dal ar 31^{ain} Mawrth 2016 ynglŷn â phroffil gweithlu Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, o ran nodweddion gwarchoddedig a gallu ieithyddol y staff.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Cynllun Iaith Gymraeg yn gofyn am gofnodi'r wybodaeth hyn a thrwy gymharu'r ffigurau hynny ar gael ar 31^{ain} Mawrth 2014 a 2015 gyda'r rhai ar 31^{ain} Mawrth 2016 (a chan gofio bod cymharol ychydig o recriwtio allanol yn cael ei wneud) mae'n rhaid bod y cynnydd yn y niferoedd a gofnodwyd oherwydd bod gwell gofnodi - data a glanhau data o gofnodion staff presennol.

Mae'r opsiwn **Anfodlon Datgan** yn ychwanegu at y data cyflogres ar draws pob categori fel opsiwn yn ystod y flwyddyn ariannol hon, gan nad oedd wedi bod yn opsiwn ar gyfer pob nodwedd warchoddedig yn flaenorol.

- Mae Rhyw, Ethnigrwydd a data Anabledd yn cael ei ddangos yn ôl y Gyfadran.
- Mae data Crefydd neu Gred a data Cyfeiriadedd Rhywiol yn cael ei ddangos ar hyn o bryd gan gyfansymiau Corfforaethol yn unig. Mae'r data wedi gwella eto yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.
- Mae cenedligrwydd wedi cael ei gynnwys am y tro cyntaf, gan gyfansymiau Corfforaethol.
- Mae Gallu Ieithyddol ar gael yn ôl Maes Gwasanaeth ond mae'r data yn cael ei ddarparu yma fel cyfansymiau Corfforaethol er gwybodaeth.
- Mae'r niferoedd ym mhob categori nawr hefyd yn dangos Heb Ddatgan ac Anfodlon Datgan, gan leihau'r nifer o feysydd gwag yn y system a darparu orolwg staff yn fwy cywir.
- Nid yw categorïau gwybodaeth eraill o fewn *iTrent* (h.y. rhai ethnigrwydd, ieithoedd, crefyddau ac ati) wedi cael eu cyflwyno fel y maent ar hyn o bryd gan eu bod yn dangos sero cofnodion.

Rhyw yn ôl Cyfadran	Gwryw	Benyw	Heb Ddatgan
Gwasanaethau Corfforaethol a'r Prif Weithredwr	224	345	0
Cyfadran Cymunedau	1,215	1,051	0
Cyfadran Addysg a Dysgu Gydol Oes	808	3,702	0
Cyfadran Gwasanaethau Cymdeithasol	256	1,911	0
Cyfanswm yr Awdurdod	2,503	7,009	0

Anabledd yn ôl Cyfadran	Wedi cofnodi'n anabl	Heb Ddatgan	Anfodlon Datgan
Gwasanaethau Corfforaethol a'r Prif Weithredwr	17	111	4
Cyfadran Cymunedau	61	9	2
Cyfadran Addysg a Dysgu Gydol Oes	60	387	3
Cyfadran Gwasanaethau Cymdeithasol	57	123	0
Cyfanswm yr Awdurdod	195	588	9

Ethnigrwydd yn ôl Cyfadran	Gwyn	Du/LIE	Heb Ddatgan	Anfodlon Datgan
Gwasanaethau Corfforaethol a'r Prif Weithredwr	555	7	6	1
Cyfadran Cymunedau	2,135	12	117	2
Cyfadran Addysg a Dysgu Gydol Oes	4,113	31	364	2
Cyfadran Gwasanaethau Cymdeithasol	2,075	29	63	0
Cyfanswm yr Awdurdod	8,878	79	550	5

Crefydd neu Gred (Cyfanswm Corfforaethol)	Niferoedd
Bwdhaidd	2
Cristion (Pob Enwad)	881
Hindŵaidd	1
Iddew	2
Mwslim	1
Dyneiddiwr	2
Sîc	1
Dim Crefydd	933
Heb Ddatgan	7,010
Anfodlon Datgan	85
Arall	21
Cyfanswm yr Awdurdod	8,939

Cyfeiriadedd Rhywiol (Cyfansymiau Corfforaethol)	Niferoedd
Deurywiol	8
Hoyw	26
Heterorywiol	1,829
Lesbiaidd	14
Arall	19
Heb Ddatgan	6,909
Anfodlon Datgan	134
Cyfanswm yr Awdurdod	8,939

Cenedligrwydd (Cyfansymiau Corfforaethol)	Niferoedd
Prydeinig (Ddim yn Ynysoedd y Sianel nag Ynys Manaw)	631
Seisnig	52
Gwyddelig	4
Gogledd Iwerddon	1,522
Albanaidd	5
Cymreig	1
Arall	25
Heb Ddatgan	6,694
Anfodlon Datgan	5
Cyfanswm	8,939

Gallu Ieithyddol (ar wahân i Saesneg) (Cyfansymiau Corfforaethol)	Niferoedd
Arabeg	1
Braille	14
Llydaweg	1
Iaith Arwyddion Prydain	67
Croasiaidd	1
Iseldireg	1
Ffrangeg	58
Almaeneg	26
Groeg	1
Hebraeg	1
Hindwaid	2
Hwngareg	1
Eidaleg	8
Cwrdeg	1
Iaith Arwyddion Makaton	1
Malayalameg	2
Nepaleg	1
Rwmaneg	3
Rwsieg	1
Serbeg	1
Sbaeneg	19
Tamil	1
Twrceg	2
Cymraeg	453
(Nid oes cyfanswm staff yn cael ei gofnodi gan fod rhai staff yn siarad mwy na dwy iaith)	

ATODIAD D - DYFYNIAD O YMATEBION HUNANWERTHUSIAD MEYSYDD GWASANAETH CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI 2015-2016

HUNAN WERTHUSIAD 2015-16 - CYLLID CORFFORAETHOL

6. Aseiad Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Nod yr adran hon yw rhoi aseiad ar sut mae ystyriaethau Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn effeithio ar gynlluniau eich maes gwasanaeth, neu sut mae eich gwaith yn effeithio ar wahanol grwpiau yn y gymuned.

6a) Beth mae tystiolaeth Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn ei ddweud am ein gwasanaeth?

Band Treth y Cyngor/NNDR

Mae holl ofynion Treth y Cyngor a hysbysiadau cyfradd busnes, ag eithriadau yn gwbl ddwyieithog. Mae dogfennau eraill yn datgan yn glir ei fod ar gael mewn ieithoedd neu fformatau eraill

Mae rhai staff wedi mynychu dosbarthiadau siarad Cymraeg ac mae ganddynt beth dealltwriaeth o'r Gymraeg. Ar ben hynny, mae rhai aelodau o staff wedi mynychu hyfforddiant cydraddoldeb, megis Arwyddion Iaith Brydeinig a Throseddau Casineb.

Mae aseidiadau o Effaith Cydraddoldeb yn cael eu cynnal cyn gwneud unrhyw newidiadau mawr o ran darparu gwasanaethau, e.e. y cyllid a godwyd yn 2016/17 mewn ffioedd llys am beidio â thalu Treth y Cyngor a threthi busnes.

Budd-daliadau Tai

Mae dogfennaeth allweddol ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg. Bydd unrhyw geisiadau ad-hoc ar gyfer gohebiaeth yn y Gymraeg yn cael eu hanfon at y Tîm Cyfieithu.

Adran Incwm

- Mae anfonebau Dwyieithog Mân Ddyledwyr yn cael eu cyhoeddi.
- Mae Hysbysiad tocynnau gormodol ceir yn ddwyieithog.
- Mae dyledion y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu trin ar wahân i ddyledion eraill, gan y gallant fod o natur sensitif, felly mae swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod achosion unigol a chamau gweithredu priodol i'w cymryd.
- Mae'r llinell dalu awtomataidd ar gael yn Gymraeg, yn ogystal â'r gwasanaeth talu ar-lein.
- Dim cwynion wedi eu derbyn mewn perthynas â Chydraddoldeb na'r Iaith Gymraeg.

Archwilio Mewnol

Mae'r Tîm Archwilio mewnol yn cydymffurfio â'r holl bolisiâu corfforaethol ond mae materion Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn gyfyng yn eu perthnasedd i waith y tîm o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, os yw maes gwasanaeth megis ysgol yn gofyn am adroddiad archwilio Cymraeg byddai trefniadau yn cael eu gwneud i ddiwallu'r cais hwn drwy wasanaeth cyfieithu corfforaethol. Er gwaethaf oedi'r adroddiad ni fyddai'n hyn yn effeithio yn uniongyrchol ar gynnwys neu ansawdd y cynnyrch. Ni fyddai'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn gallu mynychu cyfarfod llywodraethwyr i drafod adroddiad o'r fath gan nad oes unrhyw siaradwyr Cymraeg yn y Tîm. Fodd bynnag, mae aelod o'r staff yn cael cymorth i siarad Cymraeg ar hyn o bryd.

Cyllid amgylchedd

Fel gwasanaeth cymorth mewnol mae goblygiadau uniongyrchol cyfyngedig mewn perthynas â Chydraddoldeb a'r Gymraeg yn y gwasanaethau o ddydd i ddydd a ddarperir gan y tîm. Fodd bynnag, mae gan y Tîm Cyllid siaradwr Cymraeg wedi ei hyfforddi sydd ar gael i gefnogi a chynorthwyo gydag unrhyw faterion iaith Gymraeg y gallai fod angen mynd i'r afael â hwy.

Cyllid Addysg

Darperir cyfleoedd i staff gan yr Awdurdod i fynychu Cyrsiau Sylfaenol yn yr Iaith Gymraeg, Iaith Arwyddion Sylfaenol a Nam ar y Clyw.

Cyllid y Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae nifer o staff yn y Tîm Cyllid Gwasanaethau Cymdeithasol wedi derbyn hyfforddiant penodol mewn perthynas â materion cydraddoldeb.

Dim ond un aelod o staff yn y tîm sydd wedi nodi eu bod yn siarad Cymraeg, ond nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y dylai'r gallu cyfyngedig hwn fod yn achos pryder.

Mae'r tîm wedi datblygu nifer o ganllawiau/codau ymarfer a ffurflenni casglu gwybodaeth yn y blynyddoedd diwethaf nad ydynt eto wedi eu cynhyrchu yn y Gymraeg.

Cyfrifeg Gorfforaethol

Darperir cyfleoedd i staff gan yr Awdurdod i fynychu Cyrsiau Sylfaenol yn yr Iaith Gymraeg, Iaith Arwyddion a Nam ar y Clyw.

Cyffredinol

Mae Cyllid Corfforaethol yn ymgymryd â rôl arweiniol mewn cydlynu Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar gyfer cynigion arbedion Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar draws pob Cyfadran a allai gael effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth a/neu'r cyhoedd.

6b) Beth ellir ei gasglu am berfformiad Asesiad Cydraddoldeb a'r Gymraeg ar hyn o bryd?

Mae Cyllid Corfforaethol yn anelu at fodloni gofynion Cydraddoldeb a'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r maes gwasanaeth. Fodd bynnag, mae llawer o'r gwasanaethau a ddarperir ym maes Cyllid Corfforaethol yn wasanaethau cymorth ac felly maent yn naturiol yn edrych yn fewnol. Fodd bynnag, lle caiff gwasanaethau eu darparu i'r cyhoedd, mae darpariaeth yn ei lle i sicrhau bod dogfennaeth allweddol ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, a fformatau eraill.

Mae'r staff wedi cael eu hannog i ymgymryd â chyrsgiau sylfaenol yr Iaith Gymraeg, Iaith Arwyddion a Nam ar y Clyw. Bydd presenoldeb ar gyrsgiau o'r fath yn parhau i gael eu hannog yn y dyfodol.

Mae'r holl adroddiadau a baratowyd gan Gyllid Corfforaethol yn adlewyrchu goblygiadau cydraddoldeb a gofynnir am gyngor gan yr Uwch Swyddog Polisi (Cydraddoldeb a'r Gymraeg) yr awdurdod pan fo angen. Wrth i ni symud ymlaen ymhellach bydd cynigion arbedion pellach yn cael eu datblygu a bydd yn bwysig sicrhau bod Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn cael eu cwblhau pan gaiff cynigion effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth a/neu'r cyhoedd. Bydd Cyllid Corfforaethol yn parhau i gymryd rôl cydlynedd arweiniol yn y maes hwn.

Mae'r Cyngor o dan ddyletswydd statudol i gydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg newydd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 o 2016/17. Bydd angen i Gyllid Corfforaethol i ddeall yn llawn sut y bydd y Safonau hyn yn effeithio ar y gweithgareddau o ddydd i ddydd a wneir ar draws holl Dimau.

Y casgliad ar gyfer yr 'Asesiad Cydraddoldeb a'r Gymraeg' ar gyfer Cyllid Corfforaethol yw **Digonol** - Cryfderau yn gorbwyso meysydd i'w gwella.

Bydd y flaenoriaeth gwasanaeth sy'n dilyn yn cael ei hymgorffori yn y Cynllun Gwasanaeth Cyllid Corfforaethol 2016/17: -

- Nodi a mynd i'r afael ag unrhyw gamau gweithredu sy'n weddill ar gyfer Cyllid Corfforaethol mewn perthynas â'r hysbysiad cydymffurfio Safonau'r Iaith Gymraeg.

HUNAN WERTHUSIAD 2015-16 - DIOGELWCH Y CYHOEDD

6. Asesiad Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Nod yr adran hon yw rhoi asesiad ar sut mae ystyriaethau Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn effeithio ar gynlluniau eich maes gwasanaeth, neu sut mae eich gwaith yn effeithio ar wahanol grwpiau yn y gymuned.

6a) Beth mae tystiolaeth Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn ei ddweud am ein gwasanaeth?

Ar draws y gwasanaeth mae gwybodaeth i'r cyhoedd ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg ac ieithoedd/cyfryngau eraill yn gyffredinol ar gael ar gais. Mae cyngor Safonau Bwyd ar gyfer siopau cludfwyd wedi ei gyfieithu i Hindi, Wrddw, Bengaleg, Cwrdeg, Twrceg, Pwyleg, Eidaleg, Mandarin anffurfiol a Chymraeg. Mae canllawiau Rheoliad Gwybodaeth am Fwyd newydd gael eu cynhyrchu gan Safonau Masnach ar gyfer Penaethiaid Safonau Masnach Cymru (WHOTS) ac yn cael ei gyfieithu ar hyn o bryd mewn ystod o ieithoedd i'w dosbarthu i fusnesau ledled Cymru.

Mae gan y Gwasanaeth Cofrestru siaradwyr Cymraeg ar gael ar gyfer pob agwedd o'r gwasanaeth; swyddog cymorth IAP ar gyfer pobl nam ar eu clyw neu leferydd ac yn llogi dehonglwyd ieithoedd tramor lle bo angen. Mae seremonïau dinasyddiaeth yn croesawu dinasyddion newydd. Mae'r gwasanaeth yn darparu ar gyfer yr holl ofynion crefyddol a diwylliannol, er enghraifft: Cofrestr cydnabyddiaeth Rhyw sy'n caniatáu cofrestru o "caffael" rhyw sy'n rhoi statws cyfreithiol newydd ar gyfer pobl drawsrywiol.

Cofrestru genedigaeth i blant partneriaethau o'r un rhyw a'r Ddeddf Priodas (cyplau o'r un rhyw) yn galluogi cyplau o'r un rhyw i briodi yn y ddwy seremoni a chyplau sifil a chrefyddol a oedd wedi mynd yn flaenorol i mewn i bartneriaethau sifil yn flaenorol i drosi eu perthynas i briodas. Bendithion crefyddol neu ddyneiddiol, cofrestru marwolaeth ddiwylliannol brys.

Mae gan y Tîm Cynllunio at Argyfwng ddogfen "Cymunedau Ffydd mewn Canolfannau Gofal" yn ymwneud â materion ffydd a diwylliant i'w hystyried gan y gwasanaethau brys yn ystod digwyddiadau.

Mae effaith cydraddoldeb yn cael eu hystyried wrth lunio polisiau newydd neu ddiwygio rhai sy'n bodoli eisoes. Mae enghreifftiau ar gyfer 15/16 yn cynnwys Polisiau Deddf Trwyddedu a Hapchwarae, Polisi Addasrwydd Delwyr Metel Sgrap ac ystod eang o bolisiau sy'n effeithio ar y fasnach "taksi". Mae'r holl adroddiadau i'r Cabinet, Pwyllgor Craffu a'r Cyngor yn cael eu hasesu ar gyfer goblygiadau cydraddoldeb. Cwblhawyd Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar amryw o elfennau ar gyfer cynigion tuag at y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Diweddarwyd Polisi Gorfodaeth Diogelwch y Cyhoedd yn 2015, yn unol â'r Cod Rheoleiddiadau a phhecyn cymorth BRDO. Mae amrywiaeth o sefydliadau allanol, busnesau lleol, rhanddeiliaid, cyrff masnach ac asiantaethau gorfodi wedi eu hymgyngori ar ei gynnwys. Defnyddiwyd cyfieithwyr lle bo angen mewn cyfweiliadau ymchwiliad ac ar arolygiadau.

Mae rhai swyddogion wedi cael eu hyfforddi i gynnal arolygon cymdeithasol gyda chymunedau Teithio.

Fel rhan o'r broses Buddsoddwyr mewn Pobl yn y Gwasanaethau Arlwygo rydym wedi datblygu Gwerthoedd Craidd ar gyfer y sefydliad sy'n cynnwys yn benodol cydraddoldeb fel un o brif briodoleddau aelod nodweddiadol o'r gweithlu yn cael eu darlunio yn anagram HEART sy'n sefyll am:

Onestrwydd (Honesty)
Cydraddoldeb (Equalities)
Hawdd mynd atynt (Approachable)
Parch (Respect)
Gwaith Tîm (Teamwork)

Mae'r gwasanaeth yn aelod o Fforwm Cyd-lyniant Cymunedol sy'n cael ei gadeirio gan y Rheolwr Diogelwch Cymunedol. Mae gwaith y Fforwm Cydlyniant Cymunedol yn ymwneud yn bennaf â'r Fframwaith Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer llinynnau Cydlyniant Cymunedol sy'n cynnwys Trosedd Casineb, Caethwasiaeth Fodern, Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr, Mewnfudo, Cymunedau yn Gyntaf, Datblygu Polisi. Mae gan y Fforwm Cydlyniant Cymunedol oruchwyliaeth PREVENT/CHANNEL a dyletswyddau cyfreithiol a osodir ar aelodau i atal pobl sy'n agored i niwed gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth.

Mae Grŵp Datrys Problemau Dioddefwyr yn adolygu'r holl achosion Trosedd Casineb sydd wedi cael eu hadrodd i Heddlu Gwent yn y misoedd blaenorol. Mae'n tynnu'n drwm ar aelodaeth o Gymorth i Ddioddefwyr fel arbenigwyr adrodd trydydd parti, Umbrella Gwent (cefnogaeth LHDT) a Race Equality First.

Mae cymorth uniongyrchol yn cael ei ddarparu i aelodau o'r grŵp cymunedol sy'n dioddef trosedd casineb drwy'r Gwasanaeth Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol sydd, er enghraifft, yn darparu patrolau cynyddol ac ymweliadau sicrwydd. Mae Tîm y Bartneriaeth hefyd yn cefnogi prosesau aml-asiantaeth Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol (ASB) sy'n ystyried trosedd casineb wrth asesu'r camau i'w cymryd yn erbyn troseddwr sy'n dod i gamau terfynol y prosesau.

Mae Uned Diogelwch Cymunedol yn rhedeg gweithgareddau PREVENT/CHANNEL ar ran yr awdurdod gan gynnwys hwyluso hyfforddiant ar WRAP (Gweithdy i godi ymwybyddiaeth o PREVENT, sef rhaglen gwrth-eithafol y llywodraeth).

Mae Tîm y Bartneriaeth yn gweinyddu'r broses Sbardun Cymunedol o dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014. Gyda lefel sbardun ar gyfer trosedd casineb wedi ei osod ar un digwyddiad lle mae'r dioddefwr yn teimlo nad yw asiantaethau wedi ymdrin â'r achos yn briodol.

6b) Beth ellir ei gasglu am berfformiad Asesiad Cydraddoldeb a'r Gymraeg ar hyn o bryd?

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y gwasanaeth yn: **Dda** Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol

Rydym wedi nodi angen i adolygu ein hymagwedd at fonitro defnyddwyr gwasanaeth a bydd angen iddynt ystyried yr adnoddau sydd ar gael i gryfhau hyn fel y bo'n briodol.

O fewn y Gwasanaeth Arlwygo rydym yn cael trafferth i gyflogi dynion i'n gwasanaeth. Rydym yn hyrwyddo swyddi gwag arlwygo ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol yr awdurdod fel Facebook.

HUNAN WERTHUSIAD 2015-16 - GWASANAETHAU PEIRIANNEG

6. Asesiad Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Nod yr adran hon yw rhoi asesiad ar sut mae ystyriaethau Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn effeithio ar gynlluniau eich maes gwasanaeth, neu sut mae eich gwaith yn effeithio ar wahanol grwpiau yn y gymuned.

6a) Beth mae tystiolaeth Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn ei ddweud am ein gwasanaeth?

GRŴP PROSIECTAU PEIRIANNEG

- Mae ymwybyddiaeth ar draws y grŵp o faterion iaith Gymraeg a Chydraddoldeb ac mae swyddogion yn gyfarwydd â pholisïau, protocolau a gweithdrefnau'r Cyngor yn hyn o beth. Nid yw'r grŵp yma yn wynebu'r cyhoedd ac yn cael dim ond ychydig o fewnbwn i ddatblygu cynlluniau, strategaethau neu bolisïau gweithredol eraill.
- Yr unig ryngwyneb â'r cyhoedd yw drwy waith contract ac yn hyn o beth mae pob dyluniadau yn cydymffurfio â'r DDA, mae'r holl ddogfennau yn bodloni'r gofyniad ar gyfer contractwyr a gyflogir gan y Cyngor o ran Cydraddoldeb a'r Gymraeg.

GRŴP GWEITHREDU'R PRIFYRDD

Mae'r adran hon yn tynnu mewn prosesau ac adnoddau o gefndir amrywiol, a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

Ymarfer AEC ar gyfer pob cynnig Cynllun Ariannol Tymor Canolig sydd wedi cael ei graffu

Cynllun Pasbort - yn rhoi cyfle i'r di-waith weithio mewn amgylchedd gwaith deinamig - gyda'r posibilrwydd o ymestyn lleoliadau gwaith a swyddi parhaol

DDA - yn caniatáu ar gyfer mynediad i Swyddfeydd y Cyngor ac yn agor swyddi gwag i fyny ar gyfer pobl anabl

Gwefan y Cyngor yn y Gymraeg a'r Saesneg

Systemau SR / Cwynion yn hygyrch drwy nifer o sianeli uniongyrchol (ffôn/desg gymorth, e-bost, y rhyngwyd) ac anuniongyrchol (Cynghorwyr/Gwleidyddion)

GRŴP TRAFNIDIAETH PEIRIANNEG

Ceir mwy o ymwybyddiaeth ar draws y grŵp o faterion Cydraddoldeb a'r Gymraeg. Mae rhai aelodau staff wedi cael hyfforddiant ar feysydd penodol. Mae'r holl wasanaethau cyhoeddus wedi eu hadolygu i sicrhau bod gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg yn cael eu dilyn a bod gwybodaeth gyhoeddus/digwyddiadau yn cydymffurfio â pholisïau, protocol a gweithdrefnau'r Cyngor.

Mae'r holl gynlluniau, strategaethau, polisïau gweithredol a chynigion Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn ymgymryd â sgrinio AEC a, lle bo'n briodol, yn cwblhau Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn. Mae enghreifftiau diweddar wedi eu mewnbwnu i'r adolygiad CDLI a chynigion Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

6b) Beth ellir ei gasglu am berfformiad Asesiad Effaith Cydraddoldeb a'r Gymraeg ar hyn o bryd?

GRŴP PROSIECTAU PEIRIANNEG

- 1) **Prif heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth a'i gyflwyniad o ran Cydraddoldeb a'r Gymraeg?**
 - Bod yn ymwybodol o ofynion a newidiadau deddfwriaethol presennol yn hyn o beth.
- 2) **Gwelliannau allweddol i wasanaethau y mae eu hangen? Neu ostyngiadau i wasanaethau?**
 - Sicrhau mynediad effeithiol a hawdd at wasanaethau cymorth sy'n arbenigo yn y meysydd hyn.
- 3) **Camau i fynd i'r afael â'r uchod.**
 - Ymgynghori ar bob agwedd ar ddylunio a darparu prosiectau sydd yn cael effeithiau, Cydraddoldeb a'r Gymraeg.
- 4) **Prif risgiau'r gwasanaeth neu brif risgiau o ran sicrhau newidiadau?**
 - Dogfennu rhesymau dros beidio â chydymffurfio. Nid oes unrhyw ofynion i gynyddu i lefel Cyfadran ar hyn o bryd.
- 5) **A yw'n ofynnol i drosglwyddo unrhyw un o'r risgiau a nodwyd i lefel Cyfadran neu awdurdod cyfan?**
 - Nid oes unrhyw ofynion i drosglwyddo i lefel Cyfadran ar hyn o bryd.

Yn gyffredinol mae'r perfformiad yn dda - Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol

GRŴP GWEITHREDU'R PRIFFYRDD

- 1) Beth yw'r prif heriau yn wynebu'r gwasanaeth a'i chyflwyno?
 - Y gost o ymrwymiad adnoddau ar gyfer gwasanaethau cyfieithu Cymraeg
 - Y gost o adnoddau sydd eu hangen i fonitro a diweddarau deddfwriaeth cydraddoldeb
 - Y llunio a hwyluso cynlluniau a fydd yn caniatáu ar gyfer cyfleoedd o fewn y Cyngor ar gyfer yr anabl a difreintiedig
 - Cyrchu cyllid ar gyfer cynlluniau i ganiatáu ar gyfer mwy o fynediad i mewn i'r Cyngor, yn gorfforol a thrwy'r llwybr cyflogaeth - er annog ceisiadau gan y rhai dan anfantais.
- 2) A yw'r gwasanaeth cyfngiadau/gwelliannau/ychwanegiadau allweddol sydd eu hangen?
 - I adolygu a gwella hygyrchedd i safleoedd y Gwasanaeth Cyngor yn rheolaidd
 - I neilltuo cyfnod adolygu cydraddoldeb i holl weithdrefnau (gwirioneddol ac arfaethedig)
 - I wneud cais ar y cyd am grantiau a lwfansau ar gyfer gwasanaethau cydraddoldeb
- 3) Bydd camau gweithredu yn cyflwyno'r cyfngiadau gwasanaeth/gwelliannau/ychwanegiadau allweddol hynny?

- Adolygu prosesau cyfredol ac asesu eu cysondeb gyda pholisïau Cydraddoldeb a'r Gymraeg - Rheolwr HOG ac Arweinyddion Tîm yn adolygu prosesau presennol yn flynyddol gyda Cydraddoldeb
 - Cyrchu grantiau a lwfansau ar gyfer Cydraddoldeb a'r Gymraeg ac i asesu eu perthnasedd i wasanaethau a ddarperir gan bolisïau Peirianeg - Rheolwr HOG a Thîm ceisio cyllid gan Gydraddoldeb
 - Er mwyn sicrhau bod cyfnod adolygu cydraddoldeb wedi'i hymgorffori mewn polisiâu a pholisïau posibl - Rheolwr HOG ac Arweinyddion Tîm yn adolygu prosesau presennol yn flynyddol gyda Chydraddoldeb
 - Sicrhau bod cyfnod adolygu cydraddoldeb yn cael ei ymgorffori mewn polisiâu a pholisïau posibl - Rheolwr HOG ac Arweinyddion Tîm yn adolygu prosesau presennol yn flynyddol gyda Chydraddoldeb
- 4) A yw'r prif risgiau a heriau i'r sefydliad a'r gwasanaethau o ran sicrhau'r newidiadau hynny? A oes unrhyw un o'r risgiau a nodwyd i gael eu trosglwyddo i Risgiau Corfforaethol a Cyfadran neu lefel awdurdod cyfan? Os oes, sicrhewch fod y rhain yn cael eu trafod gyda'ch Cyfarwyddwr a'u trosglwyddo i'r Gofrestr Gorfforaethol a Risgiau Gyfadran drwy'r Uned Rheoli Perfformiad Corfforaethol.
- Y diffyg cydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau cyfredol ac sy'n dod i'r amlwg
 - Y potensial ar gyfer hawliadau cyfreithiol i gael eu gwneud os profi'r nad ydynt yn cadw at ddeddfwriaeth a rheoliadau cydraddoldeb
 - Ynysu rhan o'r gymuned sy'n ffurfio gwasanaethau a ddarperir gan Beirianeg
 - Gweld cydraddoldeb fel cam anfaddeuol o brosesau a gweithdrefnau - ac wedyn yn cael ei esgeuluso/hanwybyddu
- 5) Gellir dod i'r casgliad am berfformiad y gwasanaeth?
Mae'r cyngor wedi gwneud dechrau da gyda hygyrchedd Gwasanaethau Priffyrdd; gellir gwneud ymholiadau dros y ffôn, y Cynghorydd, e-bost, desg gymorth ac ati. Hefyd, mae camau cydraddoldeb cynhenid i brosesau gweithdrefnau a pholisïau, gyda cham dylunio sy'n ystyried materion hygyrchedd cyn iddynt gael eu cwblhau. Mae'r darlun hwn yn gwella'n barhaus, a bydd hyn yn cael ei gynorthwyo gan adolygiadau rheolaidd o bolisïau cyfredol

GRŴP TRAFNIDIAETH PEIRIANEG

Prif heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth a'i gyflwyno o ran Cydraddoldeb a'r Gymraeg? Dim un

- Gwelliannau allweddol i wasanaethau y mae eu hangen? Neu ostyngiadau i wasanaeth? Dim un
- Mae camau i fynd i'r afael â'r uchod. Dd/B
- Gwasanaethau Prif risgiau neu brif risgiau o ran sicrhau newidiadau? Dim un
- A oes unrhyw un o'r risgiau a nodwyd yn ofynnol i gael eu trosglwyddo i Gyfadran neu lefel awdurdod cyfan? Dd/B

Mae'r holl ofynion yn cael eu diwallu'n ddigonol ac nad oes unrhyw bryderon ar hyn o bryd.